**Mae Hawlfraint ar y Deunydd hwn**

Mae Asiantaeth Ieuenctid Cymru wedi gofyn am a chael caniatâd i ddarparu'r deunydd hwn ar CD at ddibenion addysgol yn unig. Ni chaniateir unrhyw ddefnydd anawdurdodedig o'r deunydd hwn, ac ni ellir ei atgynhyrchu ychwaith.

**Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd yr Asiantaeth Ieuenctid Genedlaethol.**
**Er mwyn cael rhagor o fanylion ar yr AIG ewch i'w gwefan: www.nya.org.uk**

# HER YR IFANC

## Cylchlythyr 1516, 27ain Mehefin 1940

**Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth**

1. Yng nghylchlythyr 1486, gofynnodd y Bwrdd i'r Awdurdodau Addysg Lleol sicrhau bod Pwyllgorau Ieuenctid cyfansoddiadol gywir yn cael eu sefydlu yn eu hardaloedd. Roedd yr ymateb a dderbyniwyd oddi wrth bawb i'r Cylchlythyr hwnnw yn debyg iawn, ac mae'r seiliau wedi cael eu gosod ar gyfer darparu mwy o gyfleusterau, a chyfleusterau gwell. Mae'r amser wedi dod erbyn hyn i ni geisio rhoi rhywfaint o arweiniad ar nod a phwrpas cyffredinol y gwaith, ac i ddarganfod elfen gyffredin ymhlith y nifer o amrywiol gyfleusterau sy'n cael eu darparu, rhyw elfen gyffredin a fydd yn gallu bod yn sail i'r gwasanaeth cenedlaethol newydd hwn.

**NOD CYFFREDINOL**

2. Mae'r nod cyffredinol yn seiliedig ar hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol, sydd yn uno pob mudiad ieuenctid â'i gilydd ac â'r ysgolion. Mae deng mlynedd ar hugain o ymchwil a phrofiad yn dangos bod angen i'r plentyn gael hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol yn ogystal â hyfforddiant meddyliol yn yr ysgol. Trwy bob cyfnod addysgol - yn yr Ysgol Feithrin, Babanod, Ysgol Gynradd ac Uwchradd - darganfyddir ffyrdd addas o ddod â'r plentyn i berthynas gywir ac arferol gyda'i gymheiriaid, ac o ddatblygu ffitrwydd corfforol trwy gêmau a hamdden. Byddai'n syndod mawr petai deng mlynedd mewn ysgol elfennol yn ddigon i gwblhau'r broses hon. Ond mae'r cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol yn dod i ben ar yr union adeg y mae eu angen fwyaf ar y rhan fwyaf o bobl ifanc. Caiff gwerth a phwysigrwydd yr hyfforddiant yma ei bwysleisio i'r holl ddisgyblion, beth bynnag eu gallu mewn ysgolion uwchradd. Ond sut y gall hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol barhau i'r disgyblion hynny nad ydynt yn parhau â'u haddysg ar ôl derbyn addysg elfennol? Cafwyd yr ateb i'r cwestiwn hwn yn Adran 17 o Ddeddf Addysg 1918, a oedd yn rhoi cydnabyddiaeth statudol i'r angen am hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol ymhlith plant a phobl ifanc am y tro cyntaf. Prif bwrpas yr holl hyfforddiant yma yw adeiladu cymeriad: mae hyn yn awgrymu datblygu personoliaeth bechgyn a merched unigol yn ei gyfanrwydd, er mwyn eu caniatáu i gymryd eu lle fel aelodau llawn o gymuned rydd.

**Y BERTHYNAS RHWNG AWDURDODAU CYHOEDDUS A MUDIADAU GWIRFODDOL**

3. Roedd y mwyafrif, os nad yr holl gyfleusterau ar gyfer y math yma o

hyfforddiant yn cael eu darparu gan gyrff gwirfoddol a oedd yn gweithio yn eu cylch eu hunain heb lawer o gydweithrediad hyd at gyfnod y rhyfel diwethaf. Fe wnaed ymgais yn 1916 i sefydlu Pwyllgorau Mudiadau Ieuenctid, er mwyn rhoi system ac egni i'r gwaith, ac er mwyn dod ag Awdurdodau Addysg Lleol a chyrff gwirfoddol i gysylltiad â'i gilydd. Fe wnaeth yr Awdurdodau Lleol waith da o annog a chefnogi'r ymdrechion gwirfoddol mewn rhai ardaloedd, ond fe wnaeth rhai Awdurdodau lansio math newydd o Sefydliad Hamdden o dan eu hadain eu hunain mewn rhai ardaloedd poblog. Ni wnaeth y gwasanaeth hwn oroesi argyfyngau ariannol y blynyddoedd wedi'r rhyfel, na'r gystadleuaeth rhyngddo â'r anghenion addysgol eraill chwaith. Rydym heddiw yn gweld dechrau newydd, ac mae'r brif egwyddor bod angen i Les Ieuenctid gael ei dderbyn fel addysg daleithiol gydnabyddedig ochr yn ochr ag Addysg Elfennol, Uwchradd ac Addysg Bellach wedi cael ei dderbyn.

4. Byddai unrhyw ymgais i unffurfioli neu gatrodi o dan reolaeth y wladwriaeth yn hurt ac yn beryglus; ond yn bwysicach fyth, byddai'n rhywbeth hollol estron i ysbryd y wlad hon. Swyddogaeth y Wladwriaeth yn y gwaith hwn yw ffocysu ac arwain yr holl ymdrechion a wneir o fewn Lles Ieuenctid; i ychwanegu at y cyfleusterau sydd gan fudiadau cenedlaethol presennol heb lesteirio eu hannibyniaeth; ac i gydweithio'n eang er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud ar lawr gwlad. Mae swyddogaeth yr Awdurdodau Addysg Lleol yr un mor glir ac angenrheidiol. Mae angen iddynt gymryd yr awenau yn eu hardaloedd lleol; darparu peirianwaith ar gyfer cydweithio yn lleol, annog mudiadau presennol i ehangu eu gwaith, a llenwi'r bylchau a adewir yn wag gan y mudiadau hyn.

5. Does dim angen unrhyw wrthdaro rhwng ymdrechion statudol a gwirfoddol. Heblaw am yr ewyllys da y disgwylir i fodoli rhwng pob un a wnelo â gwaith ieuenctid, mae'r maes mor fawr, a'r ystod mor eang fel bod digon o le i ymdrechion ychwanegol gan bawb. Amrywiaeth agweddau a thechneg y gwaith a wneir ar gyfer yr ifanc gan y mudiadau gwirfoddol yw rhinwedd llawer o'u gwaith. Er enghraifft, mae gan rai ohonynt seiliau crefyddol, neu maent mewn cysylltiad agos â'r Eglwysi - ac mae angen anogaeth ar y rhai hynny sydd mewn sefyllfa i ddarparu cyfleusterau fel y nodir isod yn effeithiol, boed hynny yn lleol neu'n genedlaethol. Nid yw amrywiaeth agwedd sydd ag un prif nod yn egwyddor newydd yn ein system addysgiadol mewn unrhyw ffordd; ond y mae iddo hyd yn oed fwy o bwysigrwydd mewn gwaith ieuenctid nac mewn ysgolion, oherwydd y traddodiadau cryf a'r hunaniaeth a berthyn i'r mudiadau gwirfoddol cenedlaethol.

**MATHAU O FUDIADAU**

6. Mae yna wedyn un prif bwrpas sy'n perthyn i bob math o waith wrth gynnig gwasanaethau ieuenctid. Ond mae'n rhaid i Bwyllgorau Ieuenctid Lleol roi ystyriaeth i'r holl wahanol fudiadau sydd yn bodoli.

(i) *Clybiau neu Unedau Annibynnol* – Mae Clybiau Annibynnol yn bodoli trwy'r wlad, boed yn glybiau sy'n perthyn i gorff gwirfoddol, Capel neu Waith. Mae'r Clybiau hyn yn rhoi'r pwys mwyaf ar weithio ar eu telerau eu hunain ac yn eu hamgylchedd eu hunain.

(ii) *Canolfannau Ieuenctid* - Gall Awdurdod Addysg Lleol, neu ymdrech wirfoddol, neu'r ddau gyda'i gilydd ddarparu Clwb Ieuenctid sydd wedi cael ei gynllunio neu ei addasu'n dda. Mae cael Warden llawn amser fel arfer yn hanfodol yn hyn o beth. Gall yr holl unedau lleol, boed yn wirfoddol neu fel arall, gwrdd yn gyson mewn Canolfannau o'r fath, a gallant rannu'r defnydd o'r neuadd, y gampfa ac unrhyw gyfleusterau eraill.

(iii) *Sefydliadau Hamdden gyda'r hwyr* – Mae Sefydliadau gyda'r hwyr yn amrywio

o un Awdurdod i'r llall, ond maent wedi datblygu agweddau hamdden cryf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers y rhyfel. Mewn rhai enghreifftiau mae'r Sefydliad tueddu i fod yn fwy o Glwb, ac wedi sefydlu traddodiad ar gyfer gwaith cymdeithasol ymhlith pobl ifanc.
(iv) *Clybiau Hen Ysgolheigion* - Mae Clybiau Hen Ysgolheigion fel arfer yn cwrdd ar dir yr ysgol. Mae'r Ysgol Uwchradd fodern, gyda'i chyfleusterau helaeth ar gyfer gwaith ymarferol, addysg gorfforol, a garddio a gwyddoniaeth wledig fel y ceir mewn ardaloedd gwledig, wedi cael ei haddasu yn dda ar gyfer gweithgareddau ieuenctid. Mae cael mynedfa ac ystafelloedd ar wahân yn ychwanegiadau defnyddiol iawn hefyd.
(v) *Clybiau Argyfwng* - Mae Clybiau Argyfwng ar gyfer pobl ifanc, boed yn ferched neu yn fechgyn, wedi agor yn y misoedd diwethaf er mwyn ceisio brwydro yn erbyn effeithiau'r rhyfel a'r blac-owt. Maent yn cael eu cynnal yn amlach na dim ar safleoedd dros dro. Mae nod y clybiau hyn yn gyfyngedig; ond gobeithir bod eu hagwedd anffurfiol yn mynd i ddenu pobl ifanc i wneud defnydd gwell a llawnach o hamdden.

Dyna rai ffyrdd y mae gwaith ieuenctid yn cael ei drefnu a'i gynnal; ond ni fydd un ohonynt ar ei ben ei hun yn ateb yr amrywiaeth o anghenion sy'n bodoli, a hynny mewn un ardal yn unig.

**ELFENNAU HYFFORDDIANT CYFFREDIN**

7. Y mae, fodd bynnag, elfennau cyffredin wrth hyfforddi pobl ifanc, y gellir tynnu sylw atynt.
(a) *Cyfleusterau Cymdeithasol* – Mae gan gyfleusterau cymdeithasol ran bwysig i'w chwarae mewn unrhyw wasanaeth ar gyfer pobl ifanc, ac mae ganddynt ddau amcan penodol. Yn gyntaf, maent yn darparu man cyfarfod ar gyfer pobl ifanc o fewn y gymdogaeth. Mae nifer o bobl ifanc yn byw mewn cartrefi da lle gallant fwynhau'r holl fanteision o fywyd teuluol hapus; ond gall bod yn aelod o glwb neu fudiad tebyg fod o fudd iddynt, trwy gyflwyno diddordebau a chyfleoedd newydd. Gwaetha'r modd, mae eraill heb fod ag amgylchiadau mor ffodus, ac mae llawer gormod o enghreifftiau o bobl ifanc sydd heb unlle i fynd ar ôl diwrnod o waith, heblaw am y stryd ac yn gorfod cysgu yno. Efallai bod y clwb neu'r ganolfan yn darparu i'r rheiny yr unig fywyd cymdeithasol iach y gallant ei gael. Ni all unrhyw ardal sydd wedi caniatáu i drefi cyfan ddatblygu heb unrhyw gyfleusterau cymdeithasol, neu sydd wedi caniatáu i weithwyr ifanc symud i ardaloedd nad ydynt yn barod ar eu cyfer, ddianc rhag eu cyfrifoldebau bellach.
Ond yn ail, maent yn darparu hyfforddiant pendant ar gyfer pobl ifanc sydd yn dymuno dod yn aelodau o gymuned rydd. Sydd am fod yn gyfartal ag eraill gan weithio ar yr un prosiectau â nhw, ond sydd yn fodlon gweithio naill ai o dan arweiniad eraill neu fel arweinydd drostynt - sy'n gyfle gwych a gynigir gan y gwersyll haf neu'r gwersyll penwythnos - mae'r rhain yn wersi na ellir eu dysgu'n llwyr erbyn i'r bobl ifanc droi yn 14 oed, sef yr oedran y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gadael yr ysgol. Bydd y rhan helaeth o'r hyfforddiant yn digwydd ar ddamwain ac yn anuniongyrchol, o ganlyniad i ddylanwad yn hytrach nac anogaeth. Ond ceir hyfforddiant uniongyrchol mewn un cylch - wrth reoli'r clwb neu'r uned ei hunan. Yn hyn o beth, gall y gwasanaeth ieuenctid ddod yn llawer mwy na gwasanaeth i ieuenctid yn unig, ond yn hytrach yn wasanaeth gan ieuenctid.
(b) *Hamdden Corfforol* – Nod cyffredinol unrhyw gynllun hamdden corfforol yw darparu cyfleoedd i ymarfer gweithgareddau corfforol llesol mewn ffordd sydd yn bodloni'r corff ac yn llawenhau'r ysbryd. Dylai'r cynllun ddarparu gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn, a dylai fedru bod yn ddigon cynhwysfawr i ddarparu ar gyfer diddordebau ac anghenion y perfformiwr

cymwys a'r unigolion sydd heb unrhyw sgiliau arbennig ac sydd heb eu hyfforddi. Mae datblygiad corfforol systematig yn un o'r anghenion corfforol sydd yn hanfodol yn ystod yr holl flynyddoedd o ddatblygu a thyfu, a chaiff ei ddarparu yn fwyaf effeithiol trwy gyfrwng hyfforddiant gymnasteg addas. O ganlyniad felly, ac ar sail effeithiolrwydd, dylai hyfforddiant o'r fath fod yn ddilyniant o'r hyn a gynigir mewn ysgolion lle bynnag y bo'n bosibl. Gall roi pwyslais arbennig ar ymarferion corff sydd wedi cael eu cynllunio i adeiladu ar sgil o fewn rhai gêmau a chystadlaethau athletig penodol. Efallai y byddai'n ddoeth i beidio cynnig ymarferion ar y cyd fel dosbarth cyfan os nad oes modd i'r gwersi gynnwys cyfuniad boddhaol o ymarferion lle mae'r unigolion yn sefyll, ymarferion ar y llawr ac ar offer sefydlog a symudol. Bydd yr aelodau'n cael eu diflasu yn ddigon cyflym os yw'r gwersi gymnasteg yn fwy diflas na'r hyn a geir yn yr ysgol, lle gallent fod yn derbyn tair neu bedair gwers bob wythnos, a'r rheiny yn cael eu cynnal mewn campfa sydd wedi ei dodrefnu'n llawn a gydag ardal chwarae eang ychwanegol. Felly, o dan rai amgylchiadau, gall y cyfnod gymnasteg ganolbwyntio ar weithgareddau megis sgipio, bocsio, ymaflyd codwm, neidio ac ymarferion ystwytho, wedi cael eu trefnu mewn grwpiau gydag arweinwyr penodol. Yn amlwg, byddai'n rhaid cynnal safonau ymddygiad derbyniol o dan y trefniant mwy rhydd hwn.

Mae arweiniad brwdfrydig yn angenrheidiol er mwyn i raglen hamdden lwyddo. Mae'n rhaid i bawb dderbyn anogaeth er mwyn iddynt roi o'u gorau a chyrraedd eu safon gorau posibl. Mae lle i gystadleuaeth fel arf i ennyn ymddygiad da, ond mae'n rhaid sicrhau ei fod yn cael ei reoli'n ofalus. Hyblygrwydd, dygnwch a hunanhyder - gellir datblygu'r rhinweddau hyn trwy wneud i'r unigolyn wynebu'r problemau a'r rhwystrau a gyflwynir gan natur trwy weithgareddau megis dringo mynyddoedd, cerdded traws gwlad, trin cwch rhwyfo neu hwylio, gwersylla a gweithgareddau tebyg.

Byddai cynllun hamdden corfforol cynhwysfawr sydd wedi cael ei greu yn ddoeth yn arwain at ddiddordeb mewn ffitrwydd corfforol, mwy o gyfeillgarwch a gwerthfawrogiad ehangach o wir gwrteisi a sbortsmonaeth dda.

(c) *Addysg Barhaus* - Tra bo cyfleusterau cymdeithasol gwell a hamdden corfforol go iawn yn llunio cefnlen ar gyfer hyfforddiant ieuenctid, mae'r Colegau Technegol, Sefydliadau Nos a chyrff gwirfoddol eraill yn darparu ystod ehangach fyth o gyfleoedd. Nid dyma'r lle i ddisgrifio'r amrywiaeth o bynciau galwedigaethol sydd ar gael i fyfyrwyr rhan amser sy'n mynychu cyrsiau gyda'r nos. Ond, ar wahân i'r cyrsiau hynny a'u tebyg, ceir cynnydd mawr mewn diddordeb yn y mudiadau cerddoriaeth, drama, trafod a dadlau, yn enwedig ymhlith bechgyn a merched hŷn. Mae'r Colegau Technegol a'r Sefydliadau Nos wedi datblygu eu bywyd corfforaethol eu hunain mewn rhai ardaloedd, sy'n gyfochrog iawn i'r hynny a geir mewn nifer o'r mudiadau sy'n perthyn i'r cyrff gwirfoddol. Byddai'n llesol i'r Pwyllgorau Ieuenctid Lleol annog a datblygu gwyliau cerddorol, cystadlaethau drama ac arddangosfeydd celf a chrefft, oherwydd mai trwy weithgareddau tebyg y mae dinasyddiaeth yn cael cyfle i gychwyn.

Mae digon o le i arbrofi o'r newydd mewn ardaloedd gwledig lle mae Clybiau Ffermwyr Ifanc ac Ysgolion Uwchradd yn bodoli. Yn hynny o beth, gallai'r Clybiau Hen Ysgolheigion greu cyswllt gwerthfawr rhwng ysgol a bywyd ar ôl ysgol. Dylai'r Pwyllgorau Ieuenctid Sirol wrth ddatblygu eu polisïau ar gyfer y dyfodol, wneud defnydd llawn o gefndir cyfoethog y traddodiad, y cyfleoedd amlwg a gynigir gan gefn gwlad ei hun, y galw adeg rhyfel am wasanaethau amaethyddol a choedwigaeth, a'r ffaith bod plant y wlad a'r dref yn cymysgu mewn ardaloedd cyffredin.

Ni ellir tynnu llinell bendant rhwng gweithgareddau galwedigaethol a

diwylliannol yn y wlad nac yn y dref. Dylai astudiaethau megis gwaith llaw, gwersi cadw tŷ, cyrsiau drama, llenyddiaeth a hanes a chyflwyniad i fyd gwyddoniaeth gael lle yn natblygiad llawn pobl ifanc. Ac er mwyn cael y canlyniadau gorau, dylid cymryd gofal mawr wrth ddewis y dull o ddysgu a'r dewis athro a fydd yn arwain gyda'r gwaith.

**ARWEINYDDIAETH A GWASANAETH**

8. Ond mae angen rhywbeth mwy eto os am greu Gwasanaeth Ieuenctid go iawn yn y wlad hon. Mae arweinyddiaeth yn hanfodol; a dylai llawer o hynny ddod yn syth o fywyd corfforaethol pobl ifanc eu hunain. Dyma'r her sy'n wynebu Pwyllgorau Ieuenctid Lleol a chyrff gwirfoddol. Mae seiliau democratiaeth yn dibynnu'n llwyr ar athrylith leol a gwladgarwch lleol. Felly, mae'n rhaid cynnig cyfleoedd ar gyfer gwasanaeth yn ogystal â chyfleoedd i baratoi ar gyfer gwasanaethu i'r bobl ifanc. Ar adeg fel hyn, pan fo'r wlad yn ymladd am ei bywyd, rhoddir pwysigrwydd newydd i baratoi ein pobl ifanc ar gyfer cyfranogi'n llwyr ym mywyd y genedl. Bydd y galw ar ein hymdrechion a'n hegni i ymdrin â thasgau eraill yn gryf iawn yn y cyfnod sydd o'n blaenau; eto, ni allwn fforddio esgeuluso ein pobl ifanc, y rheiny yr ydym yn ymladd mor galed i sicrhau dyfodol rhydd iddynt.

## Dogfennau o Bwysigrwydd Hanesyddol

Cyhoeddodd IEUENCTID MEWN CYMDEITHAS ei gyfres o Ddogfennau o Bwysigrwydd Hanesyddol yn Ebrill 1982, fel cyfraniad i'r ddadl am darddiad a datblygiad gwaith ieuenctid. Mae'r tanysgrifwyr wedi derbyn ailargraffiadau o rai o'r dogfennau mwyaf pwysig yn chwarterol drwy'r flwyddyn, ac mae ychwanegiadau pellach i'r gyfres wedi cael eu cynllunio ar gyfer 1984.

Mae'r gyfres yn cynnwys y canlynol ar hyn o bryd:

**COLEG Y PENTREF**
Memorandwm ar y Ddarpariaeth o Gyfleusterau Addysgiadol a Chymdeithasol ar gyfer Cefn Gwlad, gyda Chyfeiriadau Arbennig at Swydd Gaergrawnt
gan H Morris, Ysgrifennydd Addysg, Swydd Gaergrawnt, 1925.

**GWASANAETHU'R IFANC**
Cylchlythyr 1486, 27ain Tachwedd 1939
Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Addysg Uwch.

**HYFFORDDIANT A GWASANAETHAU I FERCHED RHWNG 14 – 16 OED**
Cylchlythyr 1630, 27ain Mai 1943
Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Addysg Uwch.

**BECHGYN Y FONEDDIGES ALBEMARLE**
gan Ray Gosling
Cyhoeddiad Young Fabian, Ionawr 1961

**CYRSIAU HYFFORDDI BRYS I'R RHEINY SY'N YMWNEUD Â'R GWASANAETH IEUENCTID**
Cylchlythyr 1598, 15fed Mehefin 1942
Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth i Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Adrannau Hyfforddiant Addysg Uwch mewn Colegau Hyfforddiant.

**Y GWASANAETH IEUENCTID A DARPARIAETHAU IEUENCTID ERAILL**
Detholiadau o adran tri o 'Ieuenctid, Y Gwasanaeth Ieuenctid a Darpariaethau i Ieuenctid', Medi 1981.
Tystiolaeth Ysgrifenedig gan y Biwro Ieuenctid Cenedlaethol am y Gwasanaeth Ieuenctid i'r Grŵp Adolygu Gwyddoniaeth a'r Adran Addysg.

**HER YR IFANC**
Cylchlythyr 1516, 27ain Mehefin 1940
Oddi wrth Fwrdd Addysg y Llywodraeth

Gellir cael setiau o'r dogfennau hyn mewn poced blastig gref oddi wrth yr **Adran Gwerthiant, Biwro Ieuenctid Cenedlaethol, 17 - 23 Stryd Albion, Caerlŷr, LE1 6GD.** Cost £1.50, costau postio am ddim. Anfoner arian gyda'r archeb os gwelwch yn dda.